

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth

Mae'r daflen hon yn dweud wrthyf sut i:

Ddweud wrthym os ydych wedi cael gwasanaeth da



Neu

Gwyno os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth



Mae'r daflen hon yn hawdd i'w darllen
Mae'r gwybodaeth hefyd ar gael yn Saesneg

Gwneud sylw neu roi canmoliaeth

Mae angen eich sylwadau a'ch canmoliaeth ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i helpu i wella ein gwasanaethau.



Efallai yr hoffech ddweud wrthym am y pethau da rydym wedi eu gwneud. Rydym yn galw hyn yn **rhoi canmoliaeth**.

Efallai yr hoffech ddweud wrthym am eich syniadau i wneud ein gwasanaethau yn well. Rydym yn galw hyn yn **gwneud sylw**.

Mae eich barn yn bwysig iawn i ni.

Byddwn yn gwrando ar eich barn chi

P'un ai ydych yn rhoi canmoliaeth neu'n gwneud cwyn, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i roi'r cymorth gorau y gallwn i chi.

Gwneud Cwyn



Efallai eich bod yn anhapus am ein gwasanaethau. Os ydych yn anfodlon am unrhyw un o'n gwasanaethau, hoffem i chi ddweud wrthym. Rydym yn galw hyn yn gwneud cwyn.



Os hoffech chi gael help i wneud cwyn, gallwch ofyn i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi, neu gallwn eich helpu i ddod o hyd i eiriolwr. Mae eiriolwr yn berson cymwys a fydd yn eich cefnogi gyda'ch cwyn. Nid oes rhaid i chi dalu am ddefnyddio eiriolwr.

Cam 1

Cysylltwch â Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddweud wrthym os ydych wedi cael gwasanaeth da, neu os ydych yn anfodlon gyda gwasanaeth



Ffôn
0800 032 1099



Wyneb yn wyneb

Ysgrifennwch at



Y Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Russell
Churton Road
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3DP



E-bost
ssdcomments@denbighshire.gov.uk



Ar-lein
www.sirddinbych.gov.uk/eichllais

Dylem ddelio â'ch problem o fewn 3 wythnos.

Cam 2 Beth os ydwy i'n dal yn anfodlon?



Byddwn yn gofyn i rywun o'r tu allan i'r Cyngor i edrych ar eich cwyn. Gelwir y person hwn yn Swyddog Ymchwilio Annibynnol.

Bydd y Swyddog Ymchwilio yn siarad â chi a phobl eraill sy'n gysylltiedig, i gael gwybod beth sydd wedi digwydd.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth rydym wedi ei ddarganfod. Bydd hyn yn cymryd tua 5 wythnos.

Beth os wyf yn dal yn anfodlon ar ôl Cam 2?

Gallwch gysylltu â:
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yr Ombwdsmon yw'r person i siarad gyda nhw os ydych yn credu nad yw eich cyngor wedi edrych ar eich cwyn yn y ffordd gywir.

Nid yw'r Ombwdsmon yn cymryd ochrau ac mae'n penderfynu ar bethau'n deg.




Gallwch ysgrifennu at yr Ombwdsmon:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Caerdydd
CF35 5LJ

Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n gwneud cwyn


Cam 1

Os ydych yn anhapus am rywbeth, cysylltwch â Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol



Cam 2

Os ydych yn anhapus gyda'r ateb y cawsoch ar Gam 1, gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hystyried unwaith eto, gan rywun o'r tu allan i'r Cyngor.



Ombwdsmon

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus os ydych yn dal yn anhapus gyda'r ymateb y cawsoch chi.

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais. Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion.